Cardiff Council Update: 21st August

Welcome to the last update of the week from Cardiff Council, covering: four more children's play areas in Cardiff will be reopening at midday this Saturday, 22nd August, bringing the total now available to 104; Year 11 pupils from across the city received their GCSE results yesterday, many of which have been delivered virtually due to COVID-19; and the grateful mother of a Cardiff man who slept rough on the city's streets has sent a powerful message of thanks to the team that helped her son achieve real change in his life.

Four more play areas reopening on Saturday

Four more children's play areas in Cardiff will be reopening at midday this Saturday, 22nd August, bringing the total now available to 104.

Play areas have been opened on a phased basis, following a safety first approach and with a view to ensuring that children across the city have some play provision in their local area as quickly as possible.

The four that will open from midday on Saturday, 22nd August are:

- Glenwood - Pentywn
- Lascelles Drive - Pontprennau & St Mellons
- Coleford Drive - Trowbridge
- Heol Booker - Whitchurch & Tongwynlais

In line with Welsh Government guidance and health and safety legislation, all sites have gone through a COVID-19 risk assessment and the equipment and safety surfaces have been inspected by a qualified playground inspector, prior to re-opening.
Changes have been made to some play areas to help maintain social distancing and minimise risk of transmitting COVID-19. For example, some swing seats have been removed to ensure a 2 metre distance is maintained.

To help ensure safety, new signage has also been installed, asking families using the sites to:

- wash or sanitise their hands, before, after and during using the equipment;
- follow social distancing requirements;
- limit visits to 30 minutes during busy times;
- only have a maximum of one adult per child in the play area.

Read more here:
https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/24581.html

Cardiff GCSE results 2020

Year 11 pupils from across the city received their GCSE results yesterday, many of which have been delivered virtually due to COVID-19.

Cabinet Member for Education, Employment and Skills, Councillor Sarah Merry, said: “GCSE results day is an important milestone in the lives of young people, marking the start of a new chapter in their lives, whether that is going on to Post 16 education, employment or traineeships.

“This group of Year 11 students have been faced with an exceptional set of challenges due to the health crisis and they will always be recognised for overcoming these. They have also had to deal with added uncertainty about the way that grades would be calculated.

“I would like to congratulate all of Cardiff’s students as they celebrate their hard work, and begin to look forward to an exciting new future.”

Given the decision to cancel examinations this summer as a result of the pandemic, the WJEC have developed a process which allows grades to be based on Centre Assessment Grades and Rank Orders which have been submitted by teachers/ lecturers.

Read more here:
https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/24572.html

Poetic tribute to ‘life saving’ homeless outreach worker

The grateful mother of a Cardiff man who slept rough on the city’s streets has sent a powerful message of thanks to the team that helped her son achieve real change in his life.

Mum Philippa filmed a short video of herself reading an emotive poem she penned, paying tribute to a support worker who has helped Michael on his journey away from life on the streets.

The poem, and Philippa’s story, give an important insight into the complex reasons that can lead to someone becoming homeless and how solving the issue is not as simple as providing a roof over a person’s head.

Philippa thanks Sian Farrugia, an outreach worker in the city’s Multi-Disciplinary team for

all the time and support she has given to help Michael get his life back on track.

The Multi Disciplinary team provides a range of support services to address the underlying support needs of individuals sleeping rough and in hostel accommodation, and has enjoyed considerable success supporting vulnerable individuals to rebuild their lives and achieve long-lasting, real change. The team includes a mental health nurse and social worker; drug and alcohol workers; access to rapid prescribing services, primary care nurses; a counsellor and therapeutic workers; peer mentors and primary care nurses.

In the poem, Sian is described as a ‘miracle worker’ who has stuck by Michael during the most difficult year of his life, during which he spent time sleeping rough on the city’s streets before starting to engage with the outreach team and moving into temporary accommodation.

Sian, who began her role in the MDT as an advocate before moving into her current outreach position, has continued to work with Michael over the past 12 months and he is now living in his own flat through the Supported Accommodation to Independent Living (SAIL) project.

Philippa praises Sian for the amazing job she does, for believing in Michael, for her empathy, knowledge, patience and care. She describes how people like Sian are actually saving lives.

Read more here:
https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/24562.html

Diweddariad Cyngor Caerdydd: 21 Awst

Croeso i ddiweddariad diwethaf yr wythnos gan Gyngor Caerdydd, gan gynnwys: bydd pedwar man chwarae i blant arall yng Nghaerdydd yn ailagor am 12pm ddydd Sadwrn 22 Awst, gan ddod â'r cyfanswm sydd bellach ar agor i 104; Cafodd disgyblion Blwyddyn 11 o bob rhan o'r ddinas eu canlyniadau TGAU ddoe, a chafodd llawer ohonynt eu cyflwyno’n rhithiol oherwydd COVID-19; ac mae mam ddiolchgar dyn o Gaerdydd a oedd yn cysgu ar strydoedd y ddinas wedi anfon neges bwerus o ddiolch i'r tîm a helpodd ei mab i gyflawni newid gwirioneddol yn ei fywyd.

Pedair ardal chwarae ychwanegol i ailagor ddydd Sadwrn

Bydd pedair ardal chwarae i blant ychwanegol yng Nghaerdydd yn ailagor o 12pm ddydd Sadwrn 22 Awst, sy’n golygu bod 104 o ardaloedd chwarae bellach ar agor eto.

Mae'r ardaloedd chwarae wedi eu hailagor yn raddol, gan ddilyn ymagwedd diogelwch yn gyntaf a gyda'r nod o sicrhau bod plant ledled y ddinas yn gallu cael rhyw fath o ddarpariaeth chwarae yn eu hardal leol cyn gynted â phosibl.

Y pedair a fydd ar agor o 12pm ddydd Sadwrn 22 Awst yw:

- Glenwood - Pentwyn
- Lascelles Drive - Pontrennau a Llaneirwg
- Coleford Drive - Trowbridge
- Heol Booker - Yr Eglwys Newydd a Thongwynlais

Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru a deddfwriaeth iechyd a diogelwch, cynhaliwyd asesiad risg Covid-19 ar bob safle ac mae arwynebau'r offer a'r arwynebau diogelwch wedi cael eu harchwilio gan arolygydd ardal chwarae cymwys, cyn eu hail-agor.

Gwnaed newidiadau i rai ardaloedd chwarae er mwyn helpu i gadw pellter cymdeithasol a lleihau'r risg o drosglwyddo COVID-19. Er enghraifft, mae rhai seddi siglenni wedi eu tynnu er mwyn sicrhau bod pellter o 2 fetr yn cael ei gynnal.

Er mwyn helpu i sicrhau diogelwch, mae arwyddion newydd wedi eu gosod ar y safleoedd hefyd, yn gofyn i deuluoedd sy'n eu defnyddio:

- olchi neu ddiheintio eu dwylo, cyn, ar ôl ac wrth ddefnyddio'r offer;
- dilyn gofynion cadw pellter cymdeithasol;
- cyfyngu eu hymweliad i 30 munud yn ystod adegau prysur;
- bod ag uchafswm o un oedolyn fesul plentyn yn yr ardal chwarae.

Darllenwch fwy yma:
https://www.newyddioncaerdydd.co.uk/releases/w66/24582.html

Canlyniadau TGAU Caerdydd 2020

Cafodd disgyblion Blwyddyn 11 o bob rhan o'r ddinas eu canlyniadau TGAU ddoe, a chafodd llawer ohonynt eu cyflwyno'n rhithiol oherwydd COVID-19.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau, y Cynghorydd Sarah Merry: "Mae diwrnod canlyniadau TGAU yn garreg filltir bwysig ym mywydau pobl ifanc, yn nodi dechrau pennod newydd yn eu bywydau, boed nhw'n mynd ymlaen i addysg ôl-16, i gyflogaeth neu i raglenni hyfforddi.

"Wynebodd y grŵp yma o fyfyrwyr blwyddyn 11 set eithriadol o heriau oherwydd yr argyfwng iechyd a chânt eu hadnabod o hyd am oresgyn y rhain. Maent hefyd wedi

gorfod delio ag ansicrwydd ychwanegol ynglŷn â'r ffordd y byddai graddau'n cael eu cyfrifo.

"Hoffwn longyfarch holl fyfyrwyr Caerdydd wrth iddynt ddathlu eu gwaith caled, a dechrau edrych ymlaen at ddyfodol cyffrous a newydd."

O ystyried y penderfyniad i ganslo arholiadau'r haf hwn o ganlyniad i'r pandemig, mae CBAC wedi datblygu proses sy'n caniatáu i raddau gael eu seilio ar Raddau Asesiad Canolfan a Threfnau Rhestrol sydd wedi eu cyflwyno gan athrawon/darlithwyr.

Darllenwch fwy yma:
https://www.newyddioncaerdydd.co.uk/releases/w66/24573.html

Teyrnged farddonol i weithiwr allgymorth digartref wnaeth 'achub bywyd'

Mae mam ddiolchgar i ddyn o Gaerdydd fu'n cysgu ar strydoedd y ddinas wedi anfon neges bwerus o ddiolch i'r tîm a helpodd ei mab i sicrhau newid go iawn yn ei fywyd.

Fe ffilmiodd y fam - Philippa - ei hun yn darllen cerdd emosiynol a gyfansoddodd, yn talu teyrnged i weithiwr cymorth sydd wedi helpu Michael ar ei daith i ffwrdd o'i fywyd ar y stryd.

Mae'r gerdd, a stori Philippa, yn rhoi cipolwg pwysig ar y rhesymau cymhleth a all arwain at rywun yn dod yn ddigartref, a sut nad yw datrys y mater mor syml â rhoi to dros ben person.

Mae Philippa yn diolch i Sian Farrugia, gweithiwr allgymorth yn nhîm amlddisgyblaethol y ddinas am yr holl amser a'r cymorth y mae hi wedi'u rhoi i helpu Michael i gael ei fywyd yn ôl ar y trywydd iawn.

Mae'r tîm amlddisgyblaethol yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau cymorth i fynd i'r afael ag anghenion cymorth sylfaenol unigolion sy'n cysgu ar y stryd ac mewn hosteli, ac mae wedi cael cryn lwyddiant wrth gynorthwyo unigolion sy'n agored i niwed i ailadeiladu eu bywydau a sicrhau newid hirhoedlog a pharhaol. Mae'r tîm hwn yn cynnwys nyrs iechyd meddwl a gweithiwr cymdeithasol; gweithwyr cyffuriau ac alcohol; y gallu i ddefnyddio gwasanaethau rhagnodi cyflym, nyrsys gofal sylfaenol, cwnselydd a gweithwyr therapiwtig; mentoriaid cymheiriaid a nyrsys gofal sylfaenol.

Yn y gerdd, disgrifir Sian fel 'gweithiwr gwyrthiol' sydd wedi bod yn gefn i Michael yn ystod blwyddyn anoddaf ei fywyd, pryd y bu'n cysgu ar strydoedd y ddinas cyn dechrau ymgysylltu â'r tîm allgymorth a symud i lety dros dro.

Mae Sian, a ddechreuodd ei rôl yn y Tîm Amlddisgyblaethol fel eiriolwr cyn symud i'w safle allgymorth presennol, wedi parhau i weithio gyda Michael dros y 12 mis diwethaf ac mae e bellach yn byw yn ei fflat ei hun drwy'r project Llety â Chymorth i Fyw'n Annibynnol (SAIL).

Mae Philippa yn canmol Sian am y gwaith anhygoel mae hi'n ei wneud, am gredu yn Michael, am ei hempathi, ei gwybodaeth, ei hamynedd a'i gofal. Mae hi'n disgrifio sut mae pobl fel Sian yn achub bywydau mewn gwirionedd.

Darllenwch fwy yma:
https://www.newyddioncaerdydd.co.uk/releases/w66/24563.html